



## Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)

Dyddiad	Pwrpas Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i Gwblhau
Rhagfyr, 2011	Cyhoeddiad Cyntaf	
5 Mehefin 2017	Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio	4ydd Gorffennaf, 2017
28 Ionawr 2019	Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio	

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog Cyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol	Grŵp Tasg Cydymffurfio	28 Ionawr, 2019

*Caiff y Cod Ymarfer hwn ei adolygu ymhen 3 blynedd*

## **Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)**

### **1. Rhagarweiniad**

Mae monitro, cofnodi, cadw a phrosesu delweddau o unigolion y gellir eu hadnabod yn ddata personol yn ôl Deddf Gwarchod Data 1998. Bwriad y Cod Ymarfer hwn yw sicrhau bod Prifysgol Bangor wrth ddefnyddio systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y Ddeddf Gwarchod Data 2018, a deddfwriaeth gysylltiedig. Dylid ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Diogelu Data Prifysgol Bangor.

Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi ei oleuo gan gyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *"In the Picture: A data protection code of practice for surveillance cameras and personal information"*.

### **2. Sgôp y Cod**

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor a phob un arall all fod yn bresennol ar eiddo'r Brifysgol ar unrhyw adeg oherwydd pa bynnag reswm.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymwneud nid yn unig â'r prif isadeiledd CCTV o fewn y brifysgol a'r cyfleusterau gwylio mewn adeiladau neilltuol yn y brifysgol (e.e. Pontio, Canolfan Brailsford) ond hefyd unrhyw systemau CCTV unigol mewn ysgolion ac adrannau (e.e. Bar Uno, Siop Braint etc).

### **3. Perchenogaeth dros y System CCTV a'i Gweithredu**

Mae'r holl systemau CCTV ar ei champws yn eiddo i Brifysgol Bangor ac yn cael eu gweithredu ganddi. Mae'r rhain wedi eu hawdurdodi fel yr amlinellir isod, ac fe'u gweithredir yn unol â'r diben a nodir yn Adran 4 isod. Gweithredir system CCTV Prifysgol Bangor gan Wasanaethau Eiddo a Champws, a'r Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) sy'n gyfrifol am reoli'r system o ddydd i ddydd. Dim ond staff wedi'u hawdurdodi fydd yn gweithredu unrhyw offer sydd yn yr ystafell reoli CCTV. Mae'r system CCTV, yr holl ddeunydd a recordir a hawlfraint arno yn eiddo i Brifysgol Bangor.

Ni chaiff unrhyw aelod o staff y brifysgol, myfyriwr, ymwelydd, gwirfoddolwr neu gontractwr sefydlu system CCTV (yn cynnwys camerâu gwe) ar eiddo Prifysgol Bangor heb ganiatâd gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

### **4. Pwrpas**

Defnyddir systemau CCTV gan Brifysgol Bangor i'r dibenion penodol a ganlyn:

- I geisio atal ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol;
- I geisio atal troseddu ac i ddal troseddwyr, yn cynnwys lladrata ac achosi difrod troseddol;
- I wella diogelwch a lles staff, myfyrwyr a'r cyhoedd;
- I gynorthwyo â rheolaeth gyffredinol unrhyw adeiladau sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Mewn achosion lle ceir, wrth gyflawni'r dibenion hyn, ddelweddau o bobl yn cyflawni gweithredoedd o natur anghyfreithlon / troseddol ac / neu weithredoedd sy'n torri Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol, gellir eu defnyddio fel tystiolaeth, naill ai'n fewnol neu mewn ymgynghoriad ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Nid yw systemau CCTV Prifysgol Bangor i gael eu defnyddio i ddibenion heblaw'r rhai a nodir yn benodol uchod.

## **5. Cymeradwyo a Chofrestru**

Mae'n rhaid i unrhyw geisiadau newydd i osod CCTV ar eiddo Prifysgol Bangor gael eu gwneud gan ddefnyddio'r ffurflen briodol (gweler Atodiad 3) a dylid ei hanfon at y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) o fewn Gwasanaethau Eiddo a Champws. Mewn ymgyngoriad gyda'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, cynhelir Asesiad Effaith ar Breifatrwydd, a fydd yn cymryd i ystyriaeth pa fanteision y gellir eu cael o'r system newydd, p'un a oes atebion gwell i'w cael, a pha effaith y gall ei chael ar unigolion.

Os ystyrir bod CCTV yn briodol, anfonir y cais at Wasanaethau Eiddo a Champws, i gynorthwyo'r Coleg/Ysgol neu Wasanaeth gyda dadansoddiad o anghenion a chostau.

Rhaid i bob rhan o'r system newydd arfaethedig gydymffurfio'n llawn â darpariaethau'r Cod Ymarfer hwn. Cedwir cofrestr ganolog gan y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch), yn rhestru lleoliad yr holl gamerâu ac offer cysylltiedig.

## **6. Lleoliad a Safleoedd**

Rhaid dilyn y canllawiau a ganlyn wrth osod systemau CCTV ar eiddo Prifysgol Bangor:

- Ar wahân i amgylchiadau eithriadol (gweler 7 isod) ni ddylid cuddio camerâu o'r golwg a rhaid eu gosod yn y fath fodd fel ag i sicrhau eu bod yn monitro'r manau y bwriadwyd iddynt eu monitro yn unig;
- Rhaid gosod arwyddion amlwg fel bod pawb yn ymwybodol eu bod yn mynd i ardal lle ceir offer gwyllo;
- Rhaid i arwyddion nodi'r rhesymau pam mae camerâu wedi'u gosod a hefyd fanylion cyswllt rheolwr y cynllun.
- Gwneir Asesiad Effaith ar Breifatrwydd cyn cymeradwyo unrhyw gamerâu newydd neu rai a adleolir.

Mae'r geiriau a gymeradwywyd gan y Brifysgol ar gyfer arwyddion CCTV i'w cael yn Atodiad 2 isod.

Yn unol â pholisïau a dulliau gweithredu'r Brifysgol, mae'n rhaid i bob gwaith ar yr ystâd, yn cynnwys unrhyw waith yn ymwneud â systemau CCTV, gael ei reoli drwy Wasanaethau Eiddo a Champws. Mae hyn yn cynnwys unrhyw arolygon ac/neu archwiliadau lle mae angen mynd i leoedd gweigion, gofodau nenfwd neu rannau eraill o'r ystâd nad oes neb yn mynd iddynt fel rheol.

## **7. Monitro Cudd**

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Brifysgol, neu rywun a enwebwyd ganddo/ganddi, i ddefnyddio systemau CCTV Prifysgol Bangor ar gyfer monitro cudd. I hynny ddigwydd mae'n rhaid cael achos rhesymol i amau bod gweithgaredd anawdurdodedig neu anghyfreithlon yn digwydd, neu ar fin digwydd. Bydd monitro cudd yn digwydd yn unig am gyfnod cyfyngedig a rhesymol sy'n gyson â'r amcanion a nodwyd. Caiff pob penderfyniad yn ymwneud â defnyddio monitro cudd ei gofnodi'n llawn.

Lle mae trydydd parti cyfreithlon (e.e. asiantaeth gorfodi'r gyfraith) yn dymuno gwneud gwaith monitro cudd ar eiddo'r brifysgol dylid dod â'r cais i sylw'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn y lle cyntaf, a fydd yn ei drafod ag Ysgrifennydd y Brifysgol a chael ei gymeradwyaeth.

## **8. Mynediad at ddelweddau CCTV a'u datgelu**

### **[a] Egwyddorion**

Mae'n bwysig sicrhau bod mynediad at ddelweddau CCTV a'u datgelu yn cael ei gyfyngu a'i reoli'n ofalus, nid yn unig i ddiogelu hawliau unigolion ond hefyd i sicrhau bod unrhyw dystiolaeth ar gael yn gyfan pe bai angen y delweddau yn y dyfodol i ddibenion tystiolaeth.

Rhaid i weithredwyr CCTV lleol (yn cynnwys rhai gyda chyfleusterau gwylio) wneud y canlynol:

- Cyfyngu mynediad i'r staff hynny sydd angen cael mynediad at y delweddau a recordiwyd i'r diben(ion) y gosodwyd y system;
- Gwneud trefniadau ymarferol i sicrhau bod delweddau a recordiwyd yn cael eu gweld yn unig gan staff gydag awdurdod a hynny mewn lleoliad diogel a chyfrinachol;
- Sicrhau bod y log CCTV yn cofnodi pob mynediad at ddelweddau CCTV a'u datgelu.

### **[b] Mynediad at ddelweddau CCTV**

Mae trefniadau yn ymwneud â mynediad at ddelweddau CCTV Prifysgol Bangor yn dod dan Bolisi Diogelu Data'r Brifysgol. Rhaid i weithredwyr CCTV lleol sicrhau'r canlynol:

- Delir â phob cais gan unigolion am fynediad at eu delweddau gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio) mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch), fydd yn trefnu mynediad unwaith y bydd gwiriad hunaniaeth wedi ei gwblhau;
- Nad yw delweddau'n cael eu datgelu i unrhyw drydydd parti (yn cynnwys staff nad oes hawl ganddynt i'w gweld);
- Bydd unrhyw ddelweddau fydd yn cael eu pasio mlaen, yn cynnwys, lle mae'n briodol, mesurau i amddiffyn hunaniaeth unigolion eraill. Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) yn goruchwyllo, ac yn llofnodi i gadarnhau, y broses cyn eu datgelu.
- Dylid cyfeirio pob cais gan yr heddlu am fynediad neu ddatgeliad at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn y lle cyntaf a dylid dilyn y drefn a amlinellir yn y *Drefn Ddatgelu: Cais am Wybodaeth gan Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith*.
- Bydd pob cais gan Golegau, Ysgolion neu Wasanaethau Canolog y Brifysgol am gael gweld delweddau yn cael sylw yn y lle cyntaf gan y Pennaeth Cydymffurfio mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch).
- Bydd y Brifysgol yn cadw delweddau CCTV am 14 niwrnod oni bai y recordir digwyddiad y mae angen ymchwilio ymhellach iddo naill ai gan y Brifysgol, y Gwasanaeth Diogelwch, yr heddlu neu gorff allanol arall gyda grymoedd erlyn.

Dim ond fel yr amlinellir yn Adran [c] isod y dylid caniatáu mynediad at brif system CCTV y brifysgol; ni ddylid caniatáu mynediad anawdurdodedig i fannau yn y brifysgol lle mae cyfleusterau gwylio i'w cael (e.e. Pontio, Canolfan Brailsford etc.) Mae mynediad at y cyfleusterau gwylio lleol hyn wedi'i gyfyngu'n bendant i staff allweddol ar ddyletswydd yn unig (cytunir ar staff priodol mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) a'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio).

## **[c] Mynediad i'r Ystafelloedd Rheoli CCTV**

Mae mynediad at yr offer monitro a recordio CCTV wedi ei gyfyngu'n bendant i staff diogelwch sydd ar ddyletswydd, a hynny i ddibenion cyfreithlon, priodol a digonol yn unig. Gwaherddir holl aelodau staff eraill ac/neu ymwelwyr rhag mynd i mewn i'r Ystafelloedd Rheoli CCTV heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Arweinydd Tîm Diogelwch neu aelod arall o'r staff Diogelwch ar ddyletswydd.

Ni fydd ymweliadau'n digwydd fel mater o drefn. Bydd Arweinydd Tîm neu aelod arall o'r staff Diogelwch ar ddyletswydd yn mynd gyda staff ac/neu ymwelwyr bob amser. Rhaid i'r holl ymwelwyr â'r Ystafelloedd Rheoli CCTV ddarllen a llofnodi'r cytundeb cyfrinachedd sydd ynghlwm fel Atodiad 1 y Cod hwn a llofnodi llyfr log yr Ystafell Reoli.

Adolygir y broses hon yn fisol gan y Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch).

### **9. Argyfyngau a Digwyddiadau o Bwys**

Pe bai argyfwng neu ddigwyddiad o bwys yn digwydd caiff yr heddlu hawl i weld delweddau yn yr ystafell reoli CCTV. Rhoddir awdurdod o'r fath ar lafar gan yr Arweinydd Tîm Diogelwch ar ddyletswydd, a'i nodi yn y log dyddiol.

Ni throsglwyddir unrhyw ddelweddau i'r heddlu heb ddilyn y drefn yn 8[b] uchod. Fodd bynnag, os oes angen delweddau'n syth i ddelio â digwyddiad mae'r heddlu'n ymchwilio iddo, dylai'r Arweinydd Tîm, neu aelod arall o'r staff Diogelwch ar ddyletswydd, ddilyn y broses a amlinellir yn *Trefn Ddatgelu: Cais am Wybodaeth gan Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith*.

### **10. Monitro ac Adolygu**

Adolygir y Cod Ymarfer CCTV hwn gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio a chynhelir archwiliad blynyddol gan y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) i fonitro gofynion y Cod Ymarfer hwn. Dylai unrhyw gwestiynau ynghylch ei ddehongli neu ei weithredu cael eu cyfeirio at y Pennaeth Cydymffurfio yn y lle cyntaf.

### **11. Camddefnyddio'r System a Chwynion**

Bydd y Brifysgol yn ymdrin yn ddifrifol ag unrhyw ddefnydd o system CCTV Prifysgol Bangor sydd y tu allan i'r Cod hwn, ac sy'n anghyson â'r dibenion a nodwyd yn 4 uchod, a gall y mater gael ei ystyried dan y drefn ddisgyblu.

Bydd y Pennaeth Cydymffurfio mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch), yn cydlynu unrhyw gwynion a dderbynnir ynglŷn â'r polisi hwn.

- Dylid cyfeirio'r gwyn at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn y lle cyntaf. Cydnabyddir derbyn y gwyn yn syth a gwneir pob ymdrech i anfon ateb mwy cynhwysfawr o fewn 21 niwrnod.
- Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon â'r ateb dylent hysbysu Ysgrifennydd y Brifysgol o fewn 21 niwrnod. Delir a'r gwyn yn unol â Threfn Gwynion Staff a Chyffredinol y Brifysgol neu Drefn Gwynion Myfyrwyr y Brifysgol fel bo'n briodol.

## ATODIAD 1

### CCTV: Dogfen Cyfrinachedd

I'w darllen gan yr holl ymwelwyr â:

- [a] Ystafell Reoli CCTV Prifysgol Bangor; neu
- [b] unrhyw gyfleuster gweld neu recordio CCTV ym Mhrifysgol Bangor; neu
- [c] unrhyw ran o'r Brifysgol lle caiff delweddau CCTV eu prosesu.

Caniateir mynediad i'r man CCTV hwn ar yr amod bod yr ymwelydd yn cytuno i gadw at ofynion Cod Ymarfer CCTV Prifysgol Bangor, Y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

Yn gryno, dyma hwy:

Rhaid i'r holl ddelweddau a welir gan bobl yn ymweld â'r ystafell reoli gael eu hystyried fel rhai cyfrinachol.

Ni ddylid datgelu cynnwys delweddau i unrhyw un heb ganiatâd, gan y diffinnir y delweddau fel data dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Gall unrhyw un wnaiff dorri rheolau datgelu gael ei erlyn yn bersonol dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Ni wneir unrhyw ddatgeliad o'r fath gyda chaniatâd neu awdurdod y Rheolwr Data neu bartneriaid eraill yn y cynllun CCTV.



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## **ATODIAD 2**

### **Geiriad dwyieithog a gymeradwywyd ar gyfer holl arwyddion CCTV Prifysgol Bangor:**

Mae delweddau'n cael eu gwyllo a'u cadw at bwrpas atal troseddu a diogelu'r cyhoedd. Rheolir y cynllun hwn gan Brifysgol Bangor. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01248 382795.

Images are being monitored and recorded for the purposes of crime prevention and public safety. This scheme is controlled by Bangor University. For more information, call 01248 382795

Trefn y Brifysgol yw y dylai arwyddion gael eu gosod wrth y fynedfa i'r holl fannau lle ceir CCTV. Mae'n arbennig o bwysig bod arwyddion yn glir ac amlwg lle mae'r camerâu eu hunain yn anamlwg iawn, neu mewn mannau lle nad yw pobl yn disgwyl cael eu gwyllo. Dylid ceisio cyngor gan y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch), Gwasanaethau Eiddo a Champws ar leoliadau priodol i arwyddion.

### ATODIAD 3

#### FFURFLEN GAIS AM SYSTEM CCTV NEWYDD / NEWIDIADAU I SYSTEM CCTV BRESENNOL

*Sylwer mai camerâu Digidol IP a ddefnyddir yn yr holl systemau CCTV newydd ym  
Mhrifysgol Bangor*



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

#### A. MANYLION CYSWLLT

Enw Cyswllt: \_\_\_\_\_

Coleg / Ysgol / Adran: \_\_\_\_\_

Ffôn: \_\_\_\_\_ E-bost: \_\_\_\_\_

#### B. TYSTIOLAETH ATEGOL

##### [i] Rationale

*(Rhowch sylw i faterion megis:*

- *Beth yw'r manteision a geir o ddefnyddio'r system*
- *A all technoleg CCTV roi'r manteision hynny mewn gwirionedd*
- *Pa effaith fydd y system CCTV yn ei chael ar unigolion*
- *A all atebion sy'n tarfu llai ar breifatrwydd, megis gwell goleuadau, gyflawni'r un amcanion*
- *Ydych chi angen delweddau digon da i adnabod unigolion yn bendant, neu a allai'r cynllun ddefnyddio delweddau eraill lle na ellir adnabod unigolion yn bendant?)*

---

---

---

---

---

---

---

---

##### [ii] Lleoliad y system:

---

##### [iii] Diben y system *(Ticiwch un diben)*

Adnabod

*(Digonol i adnabod ond annigonol i nodi troseddwr yn bendant heb dystiolaeth bellach)*

Nodi

*(Gellir ei defnyddio i nodi troseddwr yn bendant ac yn dderbyniol fel dystiolaeth mewn Llys)*



### C. MANYLEBAU A CHOSTIADAU

*Caiff manylebau a chostiadau eu llunio mewn ymgynghoriad a Gwasanaethau Eiddo a Champws. Cyn cyflwyno'r ffurflen hon dylai Coleg / Ysgol neu Adran fod mewn sefyllfa i gyllido'r cynllun – cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) os oes angen amcangyfrif i'w ystyried ymhellach)*

#### [i] Manyleb

Nifer camerâu sefydlog: \_\_\_\_\_ Manyleb: \_\_\_\_\_

Nifer camerâu Tilt & Pan: \_\_\_\_\_ Manyleb: \_\_\_\_\_

Nifer camerâu eraill: \_\_\_\_\_ Manyleb: \_\_\_\_\_

*Diagram/cynllun yn dangos lleoliad y camer(âu) wedi'i gynnwys*

#### [ii] Cod Cost

Cod Cost i dalu am y cynllun: \_\_\_\_\_

*Sylwer: Dylid ceisio caniatâd ar gyfer unrhyw system arfaethedig ac/neu uwchraddio cyn prynu ac / neu osod.*

### D. DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod y cais hwn yn unol â gofynion y Coleg / Ysgol / Adran a bod y cronfeydd priodol wedi'u nodi.

Enw: \_\_\_\_\_ Llofnod: \_\_\_\_\_

*(Pennaeth Coleg / Ysgol / Adran)*

Dyddiad: \_\_\_\_\_

***Unwaith y caiff ei llofnodi gan y Deon Coleg / Pennaeth Ysgol / Cyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol dylid anfon y ffurflen hon at Reolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch), Gwasanaethau Eiddo a Champws a fydd yn gwneud Asesiad Effaith ar Breifatrwydd mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.***

---

**Adolygiad ac Asesiad Effaith ar Breifatrwydd wedi'u Cwblhau (a'u hatodi)**

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

(Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch))